

Ein cyf: PT/jm

Gofynnwch James Merrifield  
am:

Eich cyf:



01656 644 200

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2012



[James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk](mailto:James.Merrifield@ombudsman-wales.org.uk)

Mr Trevor Purt  
Prif Weithredwr Dros Dro  
Bwrdd Iechyd Hywel Dda  
Merlin's Court  
Winch Lane  
Haverfordwest  
Pembrokeshire  
SA61 1SB

Annwyl Mr Purt

### **Llythyr Blynyddol 2011/12**

Yn dilyn cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, rwy'n falch o gynnwys y Llythyr Blynyddol (2011/12) ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Mae'r Llythyr Blynyddol yn rhoi dadansoddiad clir a chryno i chi o'r holl gwynion a dderbyniwyd ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa i yn ystod 2011/12 yng nghyswllt eich Bwrdd Iechyd chi. Fe welwch hefyd fanylion yr amser a gymerodd eich Bwrdd Iechyd i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa i, yn ogystal â chrynodebau o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt eich Bwrdd Iechyd chi.

Fel y nodir yn fy Adroddiad Blynyddol, gwelwyd 13% o gynnydd yng nghyfanswm y cwynion camweinyddu a chwynion am fethiannau yn y gwasanaeth a dderbyniwyd gan fy swyddfa o'i gymharu â 2010/11. Cwynion iechyd yw'r math mwyaf niferus o gŵyn a dderbynnir o hyd ac yn cyfateb i draean bron o'r holl gwynion a dderbyniwyd. Gwelwyd cynnydd cyffredinol hefyd yn nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan fy swyddfa. Er y bydd Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG wedi dylanwadu ar y duedd hon, mesur a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2011, credaf hefyd fod pobl yn fwyfwy tueddol o gwyno am wasanaeth gwael yn y GIG.

Mae'n braf nodi'r lefelau cynyddol o 'Atebion Sydyn' a 'Setliadau Gwirfoddol', rhywbeth na fyddai'n bosibl heb gydweithrediad cyrff cyhoeddus. Mae hyn yn golygu y llwyddwyd i gynyddu nifer y cwynion a gafodd eu terfynu ar gamau cynharach heb yr angen i gynnal ymchwiliad llawn (lle mae'n glir nad oes ystyriaethau systemig yn gysylltiedig â'r gŵyn).

Serch hynny, mae fy swyddfa wedi gorfod cyhoeddi nifer o Adroddiadau Budd Cyhoeddus yn ystod 2011/12 a amlygodd fethiannau a phryderon difrifol. Mae llawer o'r rhain yn ymwneud â chwynion iechyd, a byddwn yn annog pob bwrdd iechyd i edrych eto ar yr adroddiadau hyn, sydd ar gael ar fy ngwefan, i wneud yn siŵr bod y gwersi'n cael eu dysgu. Gallai'r adroddiadau budd cyhoeddus eraill hefyd gynnwys cyfleoedd dysgu cyffredinol ar gyfer byrddau iechyd.

Lleisiais bryderon yn Llythyrau Blynyddol y llynedd am yr amser y mae cyrff cyhoeddus yn ei gymryd yng Nghymru i ymateb i geisiadau gan fy swyddfa am wybodaeth ac mae'n siomedig nad yw'r sefyllfa wedi gwella. Mae'r ystadegau ar gyfer 2011/12 yn dangos bod yr amseroedd ymateb ar gyfartaledd ar gyfer byrddau iechyd, yn ogystal â chyrrff eraill, yng Nghymru wedi gwaethygu i'r graddau bod oddeutu tri chwarter yr ymatebion yn cael eu derbyn dros bedair wythnos ar ôl gofyn amdanynt. Rwy'n parhau i annog pob corff cyhoeddus yng Nghymru i gynorthwyo fy staff i fwrw ymlaen â'u hymchwiliadau drwy ddarparu ymatebion yn brydlon.

Gan gyfeirio at berfformiad eich Bwrdd Iechyd, bu cynnydd mawr yn nifer y cwynion a ddaeth i law fy swyddfa, yn ogystal ag yn y rheini y cynhaliwyd ymchwiliad iddynt; mae'r ddau ffigur hwn wedi mwy na threblu o'u cymharu â ffigurau 2010/11. Dengys y ffigurau bod nifer y cwynion sy'n ymwneud â 'Thriniaeth glinigol yn yr ysbyty' hefyd wedi mwy na threblu o'u cymharu â'r ffigurau ar gyfer 2010/11. Mae hyn yn peri pryder. O safbwynt canlyniadau cwynion, dylid nodi bod fy swyddfa wedi cael achos i gyflwyno dau Adroddiad Budd Cyhoeddus yn erbyn eich Bwrdd Iechyd, a byddwn yn eich annog i sicrhau bod y gwersi wedi cael eu dysgu.

Rwyf wedi anfon copi o'r ohebiaeth hon at Gadeirydd eich Bwrdd Iechyd er mwyn i'r cynnwys gael ei ystyried gan y Bwrdd. Byddwn hefyd yn croesawu'r cyfle i gwrdd â chi a Chadeirydd y Bwrdd, a bydd fy swyddfa yn cysylltu â chi yn y man i wneud trefniadau. Yn olaf, bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd.

Yn gywir

Peter Tyndall  
Ombwdsmon

Copi: Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Hywel Dda

## **Atodiad**

### **Nodiadau Esboniadol**

Mae adrannau A a B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion yn erbyn Bwrdd Iechyd Hywel Dda a dderbyniwyd ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn ystod 2011-2012.

Mae adran C yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn Bwrdd Iechyd Hywel Dda a dderbyniwyd yn fy swyddfa yn ystod 2011-2012 â'r cyfartaledd ar gyfer cyrff iechyd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r ffigurau wedi'u cyflwyno yn ôl categorïau pwnc.

Mae adrannau D ac E yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn Bwrdd Iechyd Hywel Dda a dderbyniwyd, ac a fu'n destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn 2011-2012, â'r cyfartaledd ar gyfer cyrff iechyd (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth<sup>1</sup>) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran F yn cymharu canlyniadau'r cwynion ar gyfer Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ystod 2011-2012 â'r canlyniadau ar gyfartaledd ar gyfer cyrff iechyd yn ystod yr un cyfnod. Gelwir adroddiadau Budd Cyhoeddus a gyhoeddir o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn adroddiadau 'Adran 16'.

Mae Adran G yn cymharu amseroedd ymateb Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ystod 2011-2012, â chyfartaledd yr amseroedd ymateb ar gyfer cyrff iechyd, a'r cyfartaledd ar gyfer holl gyrff cyhoeddus Cymru yn ystod yr un cyfnod. Mae graff G yn mesur yr amser rhwng y dyddiad y mae fy swyddfa yn anfon llythyr 'cychwyn ymchwiliad', a'r dyddiad y mae fy swyddfa yn derbyn ymateb llawn i'r llythyr hwnnw gan y corff cyhoeddus.

Yn olaf, mae Adran H yn cynnwys crynodebau yr holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ystod 2011-2012.

Er mwyn helpu i fesur perfformiad yn ystod 2011-2012, mae adrannau A-G hefyd yn cynnwys y ffigurau perthnasol ar gyfer 2010-2011 wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth.

---

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/cymraeg>

**A: Cwynion a ddaeth i law fy swyddfa**


<b>Pwnc</b>	<b>2011-2012</b>	<b>2010-2011</b>
Gweithdrefnau ar gyfer apwyntiadau/derbyniadau/rhyddhau a throsglwyddo	7	3
Triniaeth glinigol mewn ysbyty	31	8
Triniaeth glinigol y tu allan i ysbyty	3	1
Cyfrinachedd	0	2
Gofal parhaus	8	1
Cofnodion meddygol/safonau cadw cofnodion	1	0
Gwasanaethau anfeddygol	0	1
Delio â chwynion	2	
Gweithdrefnau recriwtio a phenodi	1	0
Ymddygiad digywilydd/anystyriol/agwedd staff	1	0
Eraill	11	3
<b>Cyfanswm</b>	<b>65</b>	<b>19</b>

**B: Cwynion yr aeth fy swyddfa â hwy ymlaen i ymchwiliad**


	<b>2011-2012</b>	<b>2010-2011</b>
Nifer y cwynion yr aethpwyd â hwy i ymchwiliad	17	5

**C: Cymharu cwynion yn ôl categori pwnc â chyfartaledd cyrff iechyd**


**2011-2012**




**2010-2011**



**D: Cymharu cwynion a dderbyniwyd gan fy swyddfa i â chyfartaledd cyrff iechyd**




**E: Cymharu cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan fy swyddfa i â chyfartaledd cyrff iechyd**




**F: Cymharu canlyniadau cwynion â chanlyniadau cyrff iechyd ar gyfartaledd, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**


**2011-2012**



**2010-2011**



**G: Cymharu amseroedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth â chyfartaledd cyrff iechyd ac amseroedd ymateb Cymru Gyfan, 2011-12**





## **H: Crynodebau'r adroddiadau**

### **Adroddiadau Budd Cyhoeddus**

#### **Awst 2011 – Triniaeth glinigol mewn ysbyty – Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

Cwynodd Ms P fod ei diweddar fam, Mrs P, wedi cael ei rhyddhau o Ysbyty Bronglais, Aberystwyth yn amhriodol ym mis Chwefror 2008; bod lefel y cyfathrebu â hi am gyflwr ei mam yn wael; ac na wnaeth y Bwrdd Iechyd ymchwilio i'w chwynion yn ddigon da na rhoi ateb rhesymol a phrydlon iddi. Yn anffodus, bu farw Mrs P ymhen ychydig oriau ar ôl iddi gael ei rhyddhau i fynd adref.

Canfu'r Ombwdsmon ei bod yn amlwg fod lefel dirlawnder ocsigen (ffordd o fesur pa mor effeithlon yw resbiradaeth) Mrs P wedi gostwng yn ystod y ddwy noson cyn iddi gael ei rhyddhau. Cafodd y meddygon wybod am y gostyngiad cyntaf y diwrnod canlynol, ond nid oedd dim tystiolaeth yn profi eu bod wedi cael gwybod am yr ail ostyngiad, na'u bod wedi cydnabod annormaleddau eraill ym mhwl a phwysedd gwaed Mrs P na gweithredu ar hyn. Casglodd yr Ombwdsmon na ddylai Mrs P fod wedi cael ei rhyddhau pan gafodd ei rhyddhau ac ystyried yr arsylwadau annormal hyn. Canfu'r Ombwdsmon hefyd fod lefel y cyfathrebu â Ms P am gyflwr ei mam yn wael, yn rhannol gan nad oedd neb wedi sylwi ar yr arsylwadau annormal. Dyfarnodd yr Ombwdsmon fod modd cyfiawnhau'r rhannau hyn o gŵyn Ms P.

Yn ystod proses ymdrin â chŵyn Ms P, roedd yr Ombwdsmon yn poeni bod y broses wedi cymryd llawer o amser, a bod oedi na ellid ei osgoi. Nododd hefyd nad oedd ymchwiliadau mewnol y Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw bryderon am y diffyg ymateb i arsylwadau annormal Mrs P. Dyfarnodd yr Ombwdsmon fod modd cyfiawnhau'r gŵyn hon hefyd.

Argymhellodd yr Ombwdsmon i'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro i Ms P a thalu £100 iddi am ei hamser a'i thrafferth yn paratoi ei chŵyn. Cyflwynodd argymhellion hefyd wedi'u hanelu at wella ymatebion i arsylwadau annormal a chadw cofnodion ar y ward dan sylw. Cytunodd y Bwrdd Iechyd i weithredu argymhellion yr Ombwdsmon.  
**Cyfeirnod yr achos 201002404**

#### **Mehafin 2011 – Gweithdrefnau apwyntiad / derbyn / rhyddhau a throsglwyddo – Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

Cwynodd Mr C am ei ôl-ofal gan y Bwrdd Iechyd ar ôl iddo dderbyn diagnosis o ganser y brostad. Dylai ei gynllun triniaeth fonitro fod wedi cynnwys apwyntiadau archwilio pob 3 mis o Dachwedd 2008 ymlaen, gan ailadrodd y biopsi ar ôl 12 mis. Dywedodd na dderbyniodd unrhyw ôl-apwyntiad tan dros flwyddyn yn ddiweddarach (pan holodd am ei apwyntiad biopsi yn Rhagfyr 2009). Pan gafodd ei weld, roedd ei ganser wedi gwaethygu. Cwynodd Mr C y byddai apwyntiad mewn pryd wedi golygu y byddai'r meddygon wedi sylwi ar dwf y canser yn gynt ac y byddai triniaeth wedi cael ei chychwyn yn gynt. Roedd yn anfodlon gydag ymateb y Bwrdd Iechyd i'w gŵyn gan deimlo na roddwyd eglurhad boddhaol ynghylch y diffyg ôl-ofal.

Ar ôl ymchwilio i'r mater, daethpwyd o hyd i fethiannau difrifol, gan gynnwys bod gan wasanaeth Wroleg y Bwrdd Iechyd, ar yr adeg dan sylw, dros 11 mis o apwyntiadau wedi pentyrru; ni chymerwyd unrhyw gamau effeithiol na brys i roi sylw i'r pentyrru cynyddol dros y cyfnod hwnnw; nid oedd unrhyw weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer

gwneud apwyntiadau a oedd yn un o gyfrifoldebau'r adran cofnodion meddygol; roedd cyswllt aneffeithiol rhwng yr adran cofnodion meddygol a'r staff clinigol heb unrhyw system ar gyfer blaenoriaethu'r cleifion hynny oedd angen ôl-apwyntiadau brys (fel Mr C a oedd wedi derbyn diagnosis o ganser yr oedd angen ei fonitro'n agos); ac o ganlyniad roedd canllawiau clinigol NICE wedi cael eu torri.

Roedd yr holl ddiffygion wedi cael canlyniadau difrifol i Mr C. Roedd yr Ombwdsmon yn feirniadol iawn o'r methiannau sylfaenol hyn a oedd, yn ei farn ef, yn codi amheuaeth ynghylch llywodraethu'r Bwrdd lechyd ac o bosibl yn peryglu mwy fyth o gleifion. Yn ogystal â rhoi gwybod i'r Arolygiaeth lechyd Cymru am yr amgylchiadau er mwyn monitro trefniadau apwyntiad y Bwrdd lechyd i'r dyfodol, gwnaeth yr Ombwdsmon nifer o argymhellion, gan gynnwys: ymddiheuro a thalu iawndal o £3000 i Mr C am y methiannau a'r poen meddwl a achoswyd iddo; adolygu ei system apwyntiadau ar draws yr holl arbenigeddau; cynllun gweithredu i roi sylw i'r mater o ôl-apwyntiadau prydlon; a gweithdrefnau ysgrifenedig i gyd-fynd â hwnnw ar gyfer bwcio apwyntiadau. Cytunodd y Bwrdd lechyd i weithredu'r argymhellion i gyd.

**Achos rhif 201000665**

## **Cadarnhawyd**

### **Ionawr 2012 – Gofal Parhaus – Bwrdd lechyd Hywel Dda**

Cwynodd gyfreithwyr Mr E am y broses a ddilynodd Bwrdd lechyd Hywel Dda a Bwrdd lechyd Addysgu Powys wrth ddelio gyda chais Mr E i adolygu cymhwyster ei fodryb Miss E i dderbyn cyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus o dan y GIG. Yn dilyn adolygu'r achos, darganfu Bwrdd Hywel Dda fod Miss E yn gymwys dros ran ond nid holl gyfnod yr hawliad, a'i fod yna wedi cyfeirio'r mater at Banel Adolygu Annibynnol wedi'i weinyddu gan Fwrdd lechyd Addysgu Powys i benderfynu'r hawliad. Penderfynodd y Panel nad oedd Miss E yn gymwys dros y cyfnod dan sylw o gwbl.

Darganfu'r Ombwdsman nad oedd y broses a ddilynwyd yn unol â'r canllawiau cenedlaethol ar gyflawni Adolygiad Annibynnol o hawliau o'r fath. Bwrdd Hywel Dda oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad ynghylch a oedd Miss E yn gymwys neu beidio oherwydd ei fod yn atebol am ariannu unrhyw ofal cymwys. Mae proses yr Adolygiad Annibynnol ar gael i ystyried unrhyw gyfnodau sy'n cael eu herio (ac i wneud argymhellion) ac ni ddylid cyfeirio materion hyd nes y bydd y Bwrdd lechyd wedi cael cyfle i adolygu ei benderfyniad cychwynnol. Yn yr achos hwn, roedd yn ymddangos bod y broses wedi mynd yn ddryslyd ac roedd Bwrdd Hywel Dda wedi cyfeirio'r achos at banel Bwrdd Powys i'w benderfynu. Roedd penderfyniad Bwrdd lechyd Addysgu Powys felly'n wallus o ran mai nid lle'r Bwrdd hwnnw oedd gwneud penderfyniad o'r fath. Derbyniodd yr Ombwdsman y gŵyn gan argymhell bod Bwrdd Hywel Dda'n cadarnhau ei benderfyniad yn unol â'i argymhelliad gwreiddiol ac yn ad-dalu ystâd Miss E dros y cyfnod perthnasol. Argymhellodd yr Ombwdsman hefyd y dylai Bwrdd lechyd Hywel Dda a Bwrdd lechyd Addysgu Powys sicrhau bod eu prosesau erbyn hyn yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

**Achos rhif 201100626**

### **Mai 2011 – Triniaeth glinigol yn yr ysbyty – Bwrdd lechyd Hywel Dda**

Cwynodd Mrs C am safon gyffredinol y gofal nyrsio oedd wedi cael ei ddarparu i'w diweddar ŵr tra oedd yn yr ysbyty, gan gynnwys bod ei gŵr wedi cael ei adael mewn gwely budr a bod y staff nyrsio wedi methu â chyfathrebu'n effeithiol gyda hi

ynghylch triniaeth ei gŵr. Cwynodd Mrs C hefyd am y penderfyniadau clinigol a gymerwyd o ran delio gyda chatheter *supra-pubic* ei gŵr, a ddylai yn ôl Mrs C fod wedi cael ei newid pan fethodd â gweithio'n iawn, yn lle cael ei olchi allan a chatheter wrethra dros dro arall wedi'i osod.

Cwynodd Mrs C hefyd am fethu â gwneud diagnosis o dorgest (hernia) ffemoral gaeth, a oedd wedi'i restru ar adroddiad *post-mortem* ei gŵr. Cwynodd hefyd am fethiant y Bwrdd Iechyd i ymchwilio'n iawn i'w chwyn am y gofal a gafodd ei gŵr y noson cyn iddo farw.

Ni dderbyniodd yr Ombwdsmon gwynion Mrs C yn llwyr. Darganfu'r Ombwdsmon, er bod yna enghreifftiau o nyrsio da, bod yna nifer o faterion pryder lle oedd safon y gofal nyrsio wedi disgyn o dan safon resymol. Darganfu'r Ombwdsmon nad oedd y methiant i wneud diagnosis o'r dorgest wedi digwydd oherwydd unrhyw fethiannau clinigol ar ran y staff meddygol. Darganfu'r Ombwdsmon fod ymchwiliad y Bwrdd Iechyd i rai agweddau ar gŵyn Mrs C wedi bod yn ddiffygiol.

Gwnaeth yr Ombwdsmon nifer o argymhellion, gan gynnwys gofyn i'r Bwrdd Iechyd gyflawni adolygiadau o safon ei gadw cofnodion a'i gyfathrebu ar y ward dan sylw ac o safon ei ymchwiliadau i gwynion mewnol.

**Achos rhif 201001484**

### **Ni Chadarnhawyd**

#### **Mawrth 2012 – Arall – Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

Gwnaed cwyn gan Mrs P bod y Bwrdd Iechyd wedi gwrthod cais ei diweddar ŵr am arian ar gyfer cyffur o'r enw cetuximab i drin ei ganser. Cwynodd Mrs P nad oedd Panel Comisiynu Cleifion Unigol y Bwrdd Iechyd wedi rhoi ystyriaeth briodol i gais ei gŵr ac nad oedd wedi cydnabod ei achos fel achos eithriadol, a ddylai fod wedi arwain at gytuno i roi'r arian.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd cetuximab yn cael ei ariannu fel arfer o dan y GIG ar gyfer y math penodol o ganser a oedd gan Mr P, ac felly roedd yn briodol i'r Bwrdd Iechyd ystyried a oedd amgylchiadau Mr P yn cyfiawnhau'r arian eithriadol yr oeddent yn gofyn amdano. Canfu'r Ombwdsmon, ar ôl derbyn cyngor clinigol priodol, bod Panel y Bwrdd Iechyd wedi ystyried cais Mr P am arian yn unol â'r gweithdrefnau a'r canllawiau perthnasol a bod y sail resymegol dros ganfod nad oedd yn gymwys i dderbyn arian eithriadol yn gadarn. Felly, ni chadarnhawyd y gŵyn gan yr Ombwdsmon.

**Rhif cyfeirnod yr achos 201102604**

#### **Mawrth 2012 – Triniaeth glinigol mewn ysbyty – Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

Cafodd Mr V lawdriniaeth enwaediad a gwnaeth gŵyn: nad oedd wedi derbyn gwybodaeth am y risg o haint; na dderbyniodd gwrthfotigau proffylactig cyn y llawdriniaeth er mwyn atal haint; cafodd ei ryddhau'n amhriodol o'r ysbyty gan staff gweinyddol, yn hytrach na staff clinigol, dim ond er mwyn rhyddhau ei wely; datblygodd haint yn ei glwyf ar ôl y llawdriniaeth; ac nid oedd y camau a gymerwyd i drin ei broblemau ar ôl y llawdriniaeth yn briodol.

Ar ôl derbyn cyngor clinigol annibynnol, canfu'r Ombwdsmon bod cofnodion Mr V yn cynnwys ffurflen ganiatâd, yr oedd wedi'i llofnodi, a oedd yn nodi risgiau llawdriniaeth ac nad oedd angen gwrthfotigau proffylactig. Canfu'r ymchwiliad hefyd bod gofal Mr V yn syth ar ôl y llawdriniaeth, ei ryddhau o'r ysbyty a'r gofal a dderbyniodd ar gyfer unrhyw broblemau dilynol ar ôl y llawdriniaeth yn rhesymol a phriodol. Felly, ni chadarnhawyd y gŵyn gan yr Ombwdsmon.

**Rhif cyfeirnod yr achos 201101631**

**Chwefror 2012 – Gweithdrefnau apwyntiad / derbyn / rhyddhau / trosglwyddo – Bwrdd Iechyd Hywel Dda & Cyngor Sir Ceredigion**

Cwynodd Mrs W am y gofal a dderbyniodd ei diweddar fab, Mr W, ar ôl iddo gael strôc. Yn enwedig, cwynodd am yr oedi gyda rhyddhau Mr W o'r ysbyty; bod diffyg ailsefydlu neu ffisiotherapi pan oedd Mr W yn yr ysbyty; ei fod wedi'i leoli'n amhriodol mewn cartref gofal neilltuol; na ofynnwyd am farn Mr W cyn ei roi yn y cartref gofal; a bod diffyg ffisiotherapi neu ailsefydlu yn y cartref gofal.

Darganfu'r Ombwdsman er bod Mr W yn yr ysbyty am gyfnod hir, ei fod gan fwyaf naill ai wedi derbyn triniaeth weithredol neu fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddod o hyd i rywle addas ar gyfer ei ryddhau iddo. Nid oedd yr Ombwdsman felly'n feirniadol o faint o amser a dreuliodd Mr W yn yr ysbyty, tra'n cydnabod y byddai Mr W wedi dymuno cael ei ryddhau'n gynt. Darganfu'r Ombwdsman hefyd fod lefel yr ailsefydlu a'r ffisiotherapi a roddwyd yn yr ysbyty yn rhesymol. Fodd bynnag, bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r ffisiotherapi oherwydd bod cyflwr Mr W wedi dirywio ac ni allai mwyach ei oddef. Darganfu'r Ombwdsman, yn yr amgylchiadau, ei bod yn rhesymol y rhoddwyd gorau i'r ffisiotherapi.

Darganfu'r Ombwdsman er efallai y byddai Mrs W wedi dymuno i Mr W fynd i gartref gofal gwahanol, bod yr un y cafodd ei roi ynddo'n addas i'w anghenion. Roedd tystiolaeth hefyd yr ymgynghorwyd â Mr W am y penderfyniad ac yr ystyriwyd ei farn. Darganfu'r Ombwdsman hefyd er bod llai o ffisiotherapi wedi'i ddarparu yn y cartref gofal nag y byddai Mrs W wedi'i ddymuno, na allai Mr W oddef rhaglen ailsefydlu fwy dwys oherwydd y dirywiad yn ei gyflwr.

Ar y cyfan, darganfu'r Ombwdsman fod y gofal a dderbyniodd Mr W o safon resymol ac ni dderbyniodd y cwynion. Fodd bynnag tynnodd sylw'r Bwrdd Iechyd at rai pethau lle gellid gwneud gwelliannau, ond ni fyddai'r materion hyn wedi achosi unrhyw anfantais i Mr W.

**Achos rhif 201100405 & 201100821**